**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 10 TACHWEDD 2021 DYDD MERCHER, 10 TACHWEDD 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol. | |

**No. 3** **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**

Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.

**COFNODION**

**No. 4** **PWYLLGOR GWEITHREDOL**

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2021.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion.

**EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**No. 5** **BLAENRAGLEN GWAITH**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Arweinydd y Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn y Flaenraglen Gwaith a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddi.

**No. 6** **GRANTIAU I SEFYDLIADAU**

**GRANTIAU I SEFYDLIADAU**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

Derbyniwyd y grantiau ychwanegol dilynol ers cyhoeddi'r adroddiad:-

**ABERTYLERI**

Ward Abertyleri – Cynghorydd -
Cynghorydd N. Daniels

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14. |
| 2. | Chillax | £100 |

Ward Abertyleri – Cynghorydd J. Holt

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14. |

Ward Abertyleri – Cynghorydd M.

| | | |
|---|---|---|
| Cook | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14.10 |
| Ward Cwmtyleri - Cynghorydd T. Sharrem | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14.10 |
| Ward Cwmtyleri - Cynghorydd J. Wilkins | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14.10 |
| Ward Cwmtyleri – Cynghorydd M Day | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14.10 |
| Ward Llanhiledd – Cynghorydd H. McCarthy | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14.10 |
| Ward Llanhiledd – Cynghorydd J. Collins | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14.10 |
| 2. | Pensiynwyr Brynithel | £200 |
| Ward Llanhiledd - Cynghorydd N. Parsons | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14.10 |
| 2. | Canolfan Gymunedol Wyndham Vowles | £100 |
| Ward Six Bells – Cynghorydd D. Hancock | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14.10 |
| Ward Six Bells - Cynghorydd M. Holland | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £14.10 |
| 2. | Tenantiaid a Phreswylwyr Six Bells | £300 |
| **BRYNMAWR** | | |
| Ward Brynmawr - Cynghorydd J. Hill | | |
| 1. | Gorymdaith Cofio | £62 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2. | Cyfeillion Interact Gogledd Ebwy Fach | £150 |
| | 3. | Cymdeithas Feteraniaid Gwasanaethu Blaenau Gwent | £150 |
| | Ward Brynmawr – Cynghorydd L. Elias | | |
| | 1. | Gorymdaith Cofio | £62 |
| | 2. | Goleuadau Nadolig Partneriaeth Canol Tref Brynmawr | £100 |
| | 3. | Ysgol Gatholig Santes Fair | £50 |
| | 4. | Ysgol Blaen y Cwm | £50 |
| | Ward Brynmawr – Cynghorydd W. Hodgins | | |
| | 1. | Gorymdaith Cofio | £62 |
| | **GLYNEBWY** | | |
| | Ward Badminton - Cynghorydd G. Paulsen | | |
| | 1. | Gorymdaith Cofio | £45 |
| | Ward Badminton - Cynghorydd C. Meredith | | |
| | 1. | Gorymdaith Cofio | £45 |
| | Ward Beaufort - Cynghorwyr G. Thomas a S. Healy | | |
| | 1. | Gorymdaith Cofio | £82.50 |
| | Gogledd Glynebwy – Cynghorydd D. Davies, P. Edwards a R. Summers | | |
| | 1. | Gorymdaith Cofio | £135 |
| | De Glynebwy - Cynghorydd J. Millard a K. Pritchard | | |
| | 1. | Gorymdaith Cofio | £90 |
| | Ward Rasa - Cynghorydd G. Davies | | |
| | 1. | Gorymdaith y Cofio | £41.25 |
| | Ward Rasa – Cynghorydd D. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Wilkshire | | |
| | 1. | Gorymdaith y Cofio | £41.25 |
| | 2. | Côr Meibion Orffews Glynebwy | £100 |
| | 3. | Clwb Pêl-droed RTB | £150 |
| | 4. | Hosbis y Cymoedd | £75 |

**NANTYGLO A BLAENAU**

| | | |
|---|---|---|
| Ward Nantyglo - Cynghorydd P. Baldwin | | |
| 1. | Gorymdaith y Cofio | £72.25 |
| Ward Nantyglo - Cynghorydd J. Mason a K. Rowson | | |
| 1. | Gorymdaith y Cofio | £144.50 |
| Ward Blaenau – Cynghorydd J. P. Morgan | | |
| 1. | Gorymdaith y Cofio | £72.25 |
| 2. | Clwb Criced Blaenau a'r Cylch | £500 |
| Ward Blaenau – Cynghorydd L. Winnett | | |
| 1. | Gorymdaith y Cofio | £72.25 |
| Ward Blaenau – Cynghorydd G. Collier | | |
| 1. | Gorymdaith y Cofio | £72.25 |

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo

**No. 7** **DIWEDDARIAD AR GYNLLUNIAU ADSEFYDLU A LLEDAENU CEISWYR LLOCHES Y DEYRNAS UNEDIG**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid.

Siaradodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid am yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar gyfranogiad yn cefnogi cynllun Adsefydlu y Deyrnas Unedig. Nododd y Prif Swyddog yr ychwanegiad diweddar sy'n cynnwys cefnogi adsefydlu dinasyddion Afghan a dywedodd fod yr adroddiad hefyd yn ceisio cytundeb ar gyfer cymryd rhan yng Nghynllun Ehangu Gwasgariad

| | | |
|---|---|---|
| | Ceiswyr Lloches y Deyrnas Unedig.<br><br>Rhoddodd y Prif Swyddog sylw pellach i'r gwaith a wnaed hyd yma yn gweithio gyda swyddogion arweiniol a phartneriaid fel y'u manylir yn yr adroddiad.<br><br>Croesawodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i gefnogi pobl sy'n ceisio lloches ym Mlaenau Gwent. Cyfeiriodd yr Arweinydd at waith y Prif Swyddog ynghyd â swyddogion eraill a'r Gweithgor a fu'n weithredol ers nifer o flynyddoedd. Dynododd y Gweithgor waith partneriaeth allanol da gyda'r Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadeirio. Roedd gan yr Arweinydd Gweithredol Addysg hefyd rôl allweddol yn y Gweithgor a dymunai'r Arweinydd gydnabod gwaith rhagorol y Gweithgor, yn arbennig yr Aelodau Gweithredol a nodir uchod.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r chynnydd a wnaed mewn cyfranogiad gydag adsefydlu y Deyrnas Unedig, a nodi'r rhaglen adsefydlu Afghan yn fwyaf diweddar. Cytunwyd i'r cynnig i gymryd rhan yn y Cynllun Ehangu Gwasgariad Ceiswyr Lloches fel cynllun peilot (opsiwn 1).<br><br>Gadawodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 8** | **<u>CYNNIG I DDATBLYGU TÎM FY NGHEFNOGAETH (MYST) BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn amlinellu'r cynnig a'r achos busnes i ddatblygu Fy Nhîm Cefnogaeth (MyST) Blaenau Gwent yn lle'r MyST presennol ar y cyd gyda Sir Fynwy. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Sir Fynwy yn awr wedi cytuno ar eu Tîm annibynnol drwy eu proses ddemocrataidd.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'r union arbedion a'r costau a gafodd eu hosgoi a sicrhaodd MyST yn ystod 2019/2020 a 2020/2021. Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach am gostau tîm llawn Blaenau Gwent fel y manylir yn yr adroddiad a dywedodd y cafodd hyn ei seilio ar y rhagolwg a roddodd Sir Fynwy ar gyfer tîm ar y cyd Blaenau Gwent a Sir Fynwy ar gyfer 2021/2022. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd pwyntiau allweddol pellach yng nghyswllt buddion ariannol gwaith ataliol Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â'r arbedion disgwyliedig yr amcangyfrifir y byddant yn cael eu cyflawni drwy sefydlu MyST BG.<br><br>Croesawodd Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad a gofynnodd am gefnogaeth y Pwyllgor Gweithredol i ddatblygu Tîm a fyddai'n sicrhau buddion pellgyrhaeddol ar gyfer plant a theuluoedd Blaenau Gwent. Roedd y gwaith a wnaed wedi dod â phlant yn ôl i'r Fwrdeistref ac wedi gosod Gwasanaethau Cymdeithasol wrth galon ein cymunedau yn awr ac i'r dyfodol.<br><br>Nododd yr Aelod Gweithredol lwyddiant y gwaith partneriaeth rhwng Blaenau Gwent a Sir Fynwy oedd yn glod mawr i'r holl staff ymroddedig. Roedd yr Aelod Gweithredol yn hyderus y byddai Tîm annibynnol i Flaenau Gwent yn parhau i sicrhau buddion i'n plant a theuluoedd ym Mlaenau Gwent.<br><br>I gloi, dymunai'r Aelod Gweithredol ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf.<br><br>Cefnogodd Arweinydd y Cyngor sylwadau'r Aelod Gweithredol a theimlai fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Gweithredol wedi gwneud gwaith hynod yn y maes hwn. Teimlai'r Arweinydd ei bod yn hollbwysig fod Blaenau Gwent yn parhau gyda'r gwaith hwn ac edrychai ymlaen at weld y gwaith cadarnhaol yn y misoedd a blynyddoedd i ddod.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi gwaith cadarnhaol MyST a chefnogi datblygu MyST Blaenau Gwent (Opsiwn 1). | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR AMGYLCHEDD</u>** | |
| **No. 9** | **<u>ADRODDIAD YMCHWILIAD LLIFOGYDD ADRAN 19, LLANHILEDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn cyflwyno Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd A19 ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfer Llanhiledd yn dilyn y llifogydd a fu yn Meadow Street a Railway Street yn ystod 15 a 16 Chwefror 2020. Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg manwl o ganfyddiadau allanol Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd A19 Llanhiledd a chyfeiriodd y Pwyllgor Gweithredol at yr adroddiad llawn a fanylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.<br><br>Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol wybodaeth bellach i'r Pwyllgor Gweithredol am y camau gweithredu allweddol o Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd A19.<br><br>Nododd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd yr adroddiad sy'n ymchwilio'r digwyddiad llifogydd a effeithiodd ar nifer sylweddol o gartrefi yn Ward Llanhiledd. Dywedodd yr Aelod Gweithredol fod yr adroddiad yn ffeithiol iawn, fodd bynnag ni allai gydnabod yr effaith dynol a chymunedol a gafodd y llifogydd ar deuluoedd yn yr ardal. Ychwanegodd yr Aelod Gweithredol y byddai'r gwaith yn parhau a rhoddir diweddariadau fel rhan o'r Cynllun Blynyddol Rheoli Llifogydd i'r Pwyllgor Craffu a hefyd y Pwyllgor Gweithredol maes o law.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ynghyd ag Adroddiad Adran 19 Ymchwiliad Llifogydd, Llanhiledd a chytunodd i gyhoeddi'r adroddiad yn unol â deddfwriaeth FWMA 2010 (opsiwn 1). | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG</u>** | |
| **No. 10** | **<u>MODEL BUDDSODDIAD CYDFUDDIANNOL (MIM) PARTNERIAETH ADDYSG YSGOLION 21AIN GANRIF CYMRU – Y CYTUNDEB PARTNERIAETH STRATEGOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a<br><br>(a) cytuno ar weithredu, cyflenwi a pherfformiad cytundeb atodol i Gytundeb Partneriaeth Strategol WEP dyddiedig 30 Medi 2020 (y "Weithred Cydymffurfiaeth") ac o ddyddiad gweithredu'r Weithred Cydymffurfiaeth i weithredu a chael ei rhwymo gan delerau Cytundeb Partneriaeth Strategol WEP dyddiedig 30 Medi 2020 fel rhan ohono, i hwyluso cyflenwi amrywiaeth o wasanaethau seilwaith a chyflenwi cyfleusterau addysg a chymunedol; | |

| | | |
|---|---|---|
| | (b) cymeradwyo telerau'r Weithred Cydymffurfiaeth a Chytundeb Partneriaeth Strategol WEP dyddiedig 30 Medi 2020 yn Atodiad A a B yr adroddiad hwn a'r crynodeb yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad hwn er mwyn gweithredu argymhelliad (a), yn amodol ar argymhelliad (c) islaw;<br><br>(c) nodi y bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg yn cwblhau'r Weithred Cydymffurfiaeth ar gyfer gweithredu a chafodd gymeradwyaeth i lenwi'r holl fylchau gwybodaeth;<br><br>(d) nodi y dylai'r Weithred Cydymffurfiaeth gael ei gweithredu fel gweithred a'i chadarnhau yn unol ag Adran 12.5 Cyfansoddiad y Cyngor; a<br><br>(e) chymeradwyo (i) penodi'r Rheolwr Gwasanaeth – Trawsnewid Addysg a Newid Busnes fel 'Cynrychiolydd Cyfranogwyr' i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol ar gyfer dibenion Cymal 12 (*Cynrychiolwyr Partïon)* Cytundeb Partneriaeth Strategol WEP; a (ii) enw, cyfeiriad a manylion cyswllt ar gyfer dibenion Cymal 40 (*Hysbysiadau)* Cytundeb Partneriaeth Strategol WEP; a<br><br>(f) nodi, wrth gytuno i ymrwymo i Weithred Cydymffurfiaeth, na ofynnir yn ystod y cyfnod hwn i symud ymlaen gydag unrhyw Brosiect; ac y caiff unrhyw benderfyniad i symud ymlaen gyda phrosiect ei ystyried ar wahân ac y rhoddir adroddiad yn ôl i'r Cabinet mewn adroddiad(au) yn y dyfodol er penderfyniad. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - YR AMGYLCHEDD</u>** | |
| **No. 11** | **<u>ADRODDIAD PERFFORMIAD GWASANAETHAU CYMUNEDOL 2020/21</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (opsiwn 1). | |
| **No. 12** | **<u>PERFFORMIAD GWASTRAFF AC AILGYLCHU 2020-21</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth.<br><br>Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o ddeilliannau perfformiad gwastraff ac ailgylchu ar gyfer 2020/2021. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymunedol y cyflawnwyd targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru ac roedd y Cyngor wedi cynnal ei lwyddiant am y flwyddyn bresennol gan ragori ar y targed o 64%.<br><br>Teimlai'r Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y cyflawnwyd hyn oherwydd gwaith caled ac ymroddiad y staff rheng flaen, swyddogion a wardeiniaid a weithiodd mewn partneriaeth gyda WRAP a gyda chefnogaeth gan y Tîm Cyfathrebu, y Tîm Perfformiad, yr Uwch Reolwyr, yr Arweinyddiaeth Etholedig ac yn bwysicaf oll breswylwyr Blaenau Gwent. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y bu hon yn un o'r blynyddoedd anoddaf mewn hanes diweddar ac roedd felly'n ddiolchgar am ei gefnogaeth i gynnal cysylltiadau ledled y pandemig.<br><br>Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol ymhellach bod yr awdurdod lleol yn parhau i wynebu cosbau ariannol gan Lywodraeth Cymru os yw'r Cyngor yn methu cyrraedd targedau ailgylchu statudol, fodd bynnag ar hyn o bryd roedd Chwarteri 1 a 2 yn uwch na'r targedau.<br><br>Adleisiodd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd ac Arweinydd y Cyngor y sylwadau a godwyd gan y Swyddog a dymunai ymestyn ei ddiolch i bawb oedd yn gysylltiedig. Ychwanegodd Arweinydd y Cyngor ei bod hefyd yn bwysig cydnabod cyfranogiad mwyafrif y cyhoedd yng ngwasanaethau gwastraff ac ailgylchu y Cyngor. Os nad oedd y Cyngor yn cyrraedd y targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, byddai'r cosbau yn cael effaith sylweddol ar gyllideb a gwasanaethau a ddarparodd y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (opsiwn 1). | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>** | |
| **No. 13** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (opsiwn 1). | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 14** | **<u>MONITRO CYLLIDEB REFENIW -2021/2022, RHAGOLWG ALLDRO O 31 MAWRTH 2022 (FEL AR 30 MEHEFIN 2021).</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy’n rhoi manylion y rhagolwg sefyllfa all-dro ariannol ar draws pob portffolio ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 fel y’i rhagwelwyd ar 30 Mehefin 2021 ac amlinellwyd y pwyntiau allweddol a gynhwysir yn yr adroddiad.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr adroddiad wedi dynodi’r camau breision ymlaen a wnaed yn y 3-4 blynedd ddiwethaf ar gyllideb y Cyngor. Ychwanegodd yr Arweinydd y cafodd y Cyngor ei feirniadu mewn blynyddoedd diweddar am lefel isel eu cronfeydd wrth gefn. Mae’r rhain yn awr yn cael eu hadeiladu i lefel dderbynjiol ac mae ein cyllidebau mewn sefyllfa fwy ffafriol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a<br><br>(a) bod Aelodau yn rhoi her briodol i’r deilliannau ariannol yn yr adroddiad; ac yn<br><br>(b) cymeradwyo’r trosglwyddiadau a fanylir ym mharagraff 5.1.4 i 5.1.7. | |
| **No. 15** | **<u>MONITRO CYLLIDEB CYFALAF, RHAGOLWG BLWYDDYNARIANNOL 2021/22 (FEL AR 30 MEHEFIN 2021)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg i’r Pwyllgor Gweithredol o wariant cyfalaf gwirioneddol a rhagolwg pob Portffolio o gymharu â’r cyllid a gymeradwywyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 fel ar 30 Mehefin 2021. Siaradodd y Prif Swyddog ymhellach am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o’r wybodaeth ynddo.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a<br><br>(a) Bod Aelodau wedi rhoi her briodol i’r deilliannau ariannol yn yr adrodddiad.<br>(b) Bod Aelodau’n parhau i gefnogi’r gweithdrefnau rheolaeth ariannol priodol a gytunwyd gan y Cyngor.<br>(c) Bod Aelodau’n nodi y gweithdrefnau rheoli a monitro’r cyllideb sydd yn eu lle o fewn y Tîm Cyfalaf i ddiogelu cyllid yr Awdurdod. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| No. 16 | **RHAGLEN PONTIO'R BWLCH - 2021/2022 – DIWEDDARIAD CYNNYDD EBRILL I MEHEFIN 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Nododd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn nhermau'r Adolygiadau Busnes Strategol yn ystod y cyfnod Ebrill i Mehefin 2021. Ymhellach, amlinellodd y Prif Swyddog Adnoddau y pwyntiau allweddol yng nghyswllt bylchau cyllideb (gwarged) yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (Mawrth 2021), yr amcangyfrifon diweddaraf o'r hyn a gyflawnwyd a'r bylchau sy'n parhau i fod yn y gyllideb yn dilyn cymhwyso Cyfleoedd BtG.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol wedi rhoi her briodol i raglen Pontio'r Bwlch (opsiwn 1). | |
| | **EITEMAU MONITRO – ADDYSG** | |
| No. 17 | **CYFARWYDDIAETH ADDYSG – CYNLLUN ADFER AC ADNEWYDDU**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant a'r Rheolwr Gwasanaeth – Trawsnewid Addysg a Newid Busnes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, y dogfennau cysylltiedig a'r llwybr gweithredu a gynigir (opsiwn 1). | |
| No. 18 | **RHAGLEN GWELLA YSGOLION 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysgol.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o raglen Gwella Ysgolion Blaenau Gwent, yn unol â newidiadau cenedlaethol i werthuso, gwella ac atebolrwydd ysgolion. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sylw i gynllun peilot y dull gweithredu rhanbarthol newydd ar gyfer 2021-2022. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y trefniadau newydd sydd yn eu lle i gefnogi ysgolion a rhoddodd drosolwg o lefel y cymorth a | |

| | | |
|---|---|---|
| | ddarparwyd sydd wedi arwain at gynnydd cadarnhaol mewn ysgolion.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 19** | **<u>GWAHARDD DISGYBLION</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (opsiwn 1). | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** | |
| **No. 20** | **<u>UNEDAU HYBRID A HWB BOCS – MONITRO PERFFORMIAD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Busnes ac Adfywio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (opsiwn 1). | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 21** | **<u>GRANT PLANT A CHYMUNEDAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac<br><br>(a) ystyriwyd y cynnydd a wnaed hyd yma ar y grant Plant a Chymunedau; a<br><br>(b) nodwyd fod Grŵp Llywio'r CCG yn parhau i oruchwylio a gweithredu'r rhaglen cyflenwi ac yn rhoi adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Craffu, y Pwyllgor Gweithredol a'r trefniadau lleol newydd yn lle'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | |
| **No. 22** | **<u>AROLYGIAETH GOFAL CYMRU – GWIRIAD SICRWYDD 2021:</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Cymdeithasol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn cyflwyno crynodeb gwiriad sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru a nodir yn eu llythyr dyddiedig 11 Mehefin 2021 sydd ynghlwm fel Atodiad 1. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai diben y gwiriad sicrwydd yw adolygu pa mor dda mae Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol yn parhau i helpu a cefnogi oedolion a phlant gyda ffocws ar iechyd a llesiant.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y cwestiynau a godwyd gan yr Arolygiaeth a soniodd am yr atebion ynghyd â meysydd sydd angen gwella.<br><br>Roedd Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol yn falch fod yr Arolygiaeth wedi cydnabod gwaith caled ac ymroddiad tîm Blaenau Gwent. Dywedodd fod y 18 mis diwethaf wedi bod yn anodd, fodd bynnag roedd y tîm wedi cadw eu ffocws ar ddefnyddwyr gwasanaeth a sefyllfa benodol eu teuluoedd.<br><br>Croesawodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad cynhwysfawr ac onest a roddwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol a dymunai ddiolch ar ran y Pwyllgor Gweithredol i'r tîm sy'n gweithio'n ddiflino i gefnogi teuluoedd Blaenau Gwent a chaiff eu gwaith a'u hymroddiad ei gydnabod.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a fanylir o fewn llythyr Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (opsiwn 1). | |
| **No. 23** | **EITEM(AU) EITHREDIG** | |
| **No. 24** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD SILENT VALLEY WASTE SERVICES CYF**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, fod o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei | |

| | | |
|---|---|---|
| | bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth sy]n cynnwys manylion ynghylch materion busnes/ariannol personau heblaw'r Awdurdod (Opsiwn 1). | |